# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 15.08.2023

Presennol: Meredydd Williams, Eirian Hoyle, Lynda Massarelli, Eurwyn Jones, Heulwen Parry, Gareth Jones, Elfed Roberts

1. Ymddiheuriadau:

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. EH, HP

<u>3. Materion yn codi o'r cofnodion</u>

3.478 Gellilydan (Bron Gelli): Cyrbau, disgwyl ymateb gan ADRA. Clerc i ail-gysylltu.

3.479 Cae Chwarae Maentwrog: EH am drefnu i roi hysbyseb i weld os oes diddordeb o fewn y plwyf i sefydlu pwyllgor ar wahân ar gyfer y caeau chwarae, ail-drafod cyfarfod nesaf.

3.480 Cae Chwarae Gellilydan – Cyfarfod safle i'w drefnu gyda Adrian Williams (Cyngor Gwynedd) ac Michael Evans (Adra).

3.481 Tir ger Gors Fach – gwaith atgyweirio angen ei wneud i'r ffens, Elfed Roberts am gysylltu a Chyngor Gwynedd. (cadw mlaen).

3.482 National Grid: grantiau ar gael, cadw mlaen.

3.483 Parcio Gellilydan: Ceir yn parhau i barcio ar linellau dwbl – Clerc i gysylltu a PC Elliw Roberts am adroddiad yn dilyn cyfarfod 17/05/23

3.484 Bryn Arms, Gellilydan: MW i anfon llunia i'r Clerc yn dangos y difrod dŵr. Angen eu hafnon ymlaen at Cyfoeth Naturiol Cymru ac Alun Osborne Evans o Cyngor Gwynedd.

3.485 Pen y Bont – Wedi ei ddatrys, giât am gael ei gosod.

3.486 Rheolau Sefydlog – Rheolau wedi eu trafod a cafwyd eu cameradwyo yng Nghyfarfod 11/07/2023.

3.487 Bioamrywiaeth – MW ac HP wedi cyfarfod gyda Megan o'r Dref Werdd, gyda'r canlynol wedi eu trafod ac wedi eu cymeradwyo yn unfrydol gan y Cyngor.

Cynllun gweithred 2 flynedd.

Safle 1 - Cae chwarae Maentwrog

Safle 2 – Cae gyferbyn a'r Fynwent

Rhaid rhoi mewn cymal mae Mynwent yw prîf ddefnydd y tîr.

Rhaid i'r planhigion fod yn hunangynhaliol, ac nid mwy na 12 troedfedd o uchder.

Safle 3 – Glynnor, Gellilydan. Cynllun wedi ei roi ymlaen gan Megan.

<u>4. Materion i'w trafod ar y pryd</u>

4.194 Coed Gors Fach - Clerc i gysylltu i weld beth yw'r cynllun / defnydd diweddaraf sydd gan Cyngor Gwynedd ar gyfer y tir yma.

4.195 Gofeb – Iechyd a Diogelwch – Angen gosod ffens i atal y cyhoedd rhag cael mynediad at waelod y graig. Clerc i gael pris gan dri contractwr am y gwaith.

4.196 Safle Bws Gellilydan - Coeden angen sylw, clerc i ail-gysylltu ac Adrian Williams.

4.197 Safle Bws Maentwrog – Cyflwr blêr - Cysylltu a Galw Gwynedd a Thim Tacluso Bro.

4.198 Maentwrog

1. Cyflwr y wal dros ffordd i'r safle bws.
2. Gordyfiant dros ffordd i'r hen Ysgol.
3. Pen Rhiw, ffordd fyny at Gellilydan, coed yn tyfu drosodd ac un goeden bron a disgyn.

Lluniau wedi eu derbyn yn dangos y sylwadau uchod, clerc i'w hafnon ymlaen at sylw Adrian Williams.

4.199 Sylwadau at sylw yr Adran Priffyrdd / Cyngor Gwynedd sydd wedi codi.

1. Loriau trwy Maentwrog am Harlech – clerc i gysylltu i weld os oes posib rhoi arwyddion bod y ffordd yn anaddas ar gyfer cerbydau mawr, hefyd i ofyn os oes posibilrwydd o newid statws y ffordd.
2. Ffordd o Pwerdy Maentwrog i Gellilydan – mannau pasio yn cael eu defnyddio ar gyfer parcio. Clerc i gysylltu, os oes posib rhoi arwyddion mae mannau pasio yn unig yw y rhain.

4.200 Heb ei gynnwys yng nghofnodion mis Awst (cangymeriad y clerc).

Archwiliad Mewnol – Derbyniwyd Addroddiad yr Archwilydd yn ôl gan Cyngor Gwynedd, trafodwyd ei gynnwys yn fanwl gyda sylw i'r pwyntiau a godwyd. Mae y cyfrifion yn awr yn barod i'w hafnon ymlaen i Swyddfa Archwilio Cymru am archwiliad llawn.

<u>5. Ariannol</u>

5.131 Cyfrif Cadw: £219.81

5.132 Cyfrif Cyfredol: £7633.75

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.133 Cyngor Gwynedd - £234.00

<u>6. Cynllunio</u>

Dim ceisiadau

<u>7. Gohebiaeth</u>

<u>224 Un llais – hyfforddiant</u>

<u>225 Gwyn Lloyd Evans – Llwybr y Warren</u>

<u>8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill</u>

Dim newyddion

<u>9. Mynwent Dwyryd</u>

9.10 Cyfrif y Fywent: £15750.32

D M Williams

Cytunwyd i dalu y canlynol:

9.11 Mr R Jones - £80

9.12 Mr R Jones - £100 – Talu o flaen llaw – pris o £100 wedi cael ei gytuno.

9.13 Mynwent Dwyryd – Safle parcio - Cyfarfod safle nos Fawrth 22/08/22. Yn bresennol:

Meredydd Williams, Eirian Hoyle, Heulwen Parry, Gareth Jones, Eurwyn Jones, Elfed Roberts, Lynda Massarelli.

Trafodwyd y ddau safle, paswyd drwy bleidlais mae'r safle isaf (wrth y tŷ gwair) yw yr un mwyaf addas.

9.14 Mynwent Dwyryd - Rheolau Newydd yn cael eu gwneud, copi draft i'w hafnon i'r Cynghorwyr.

<u>10, Dyddiad cyfarfod nesaf</u>

3ydd Hydref am <u>6.30, ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog</u>

D.M. Williams